**LC395**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**
**Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) 2002**

Mae'r rheoliadau hyn yn rheoli sut y caiff anifeiliaid byw, cig a chynnyrch anifeiliaid eu hanfon o Gymru i fannau y tu hwnt i Ynysoedd Prydain ac i Ogledd Iwerddon ac Ynys Manaw. Maent hefyd yn cyfyngu ar fewnforio anifeiliaid byw i Gymru. Maent yn disodli'r Rheoliadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 14) 2001.

Maent yn rhoi Penderfyniad y Comisiwn dyddiedig 28 Rhagfyr 2001 (2001/938/EC) ar waith. Yn benodol maent yn ymestyn ymhellach yr ardal lle caniateir anfon rhai cigoedd ac yn caniatáu allforio anifeiliaid buchol byw yn ogystal â moch o wledydd penodedig.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan RhS 11.5.

**Sylwadau Cyffredinol**

Dylid, os oes modd, gywiro'r pwyntiau canlynol yn fersiwn cyhoeddedig y rheoliadau –

- Yn y rhestr gynnwys ar dudalen 2 ymddengys bod angen dileu'r cyfeiriad at "Regulation 4".

- Yn y diffiniad o "administrative unit" yn rheoliad 2(1) dylid rhoi "Schedule 2" yn lle "the Schedule".

- Yn y nodyn esboniadol (paragraff 4) dylid newid "201" i "21"..

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

15 Ionawr 2002